

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU  
NOS IAU 16<sup>eg</sup> TACHWEDD 2017  
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:  
Cynghorwyr:  
Erwyn Jones - Cadeirydd  
Mel Goch ap Meirion  
Bedwyr Gwilym  
Will G Roberts  
Glyn Daniels  
Annwen Daniels  
Mark Thomas  
Elin Roberts

Ymddiheuriad:  
Cynghorydd:  
Rory Francis  
Ronwen D Roberts

**DATGAN DIDDORDEB**

**Cynghorydd Annwen Daniels, Tir yn Tan y Manod**

1. **Toiledau Diffwys**

Bu i Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd drafod dyfodol toiledau cyhoeddus Diffwys. Mae cyfanswm costau rhedeg y toiledau yn £9704 fel a ganlyn-

Cynnal a Chadw	£1306
Glanhau	£6104
Trydan	£ 258
Trethi	£1229
Dŵr	£ 807

Mae'r Cyngor Tref yn cyfrannu £4000 y flwyddyn er mwyn eu cael ar agor drwy'r flwyddyn ac mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cyfraniad o £2912 gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau chynnal a chadw'r toiledau. Cafwyd gwybodaeth bod y ddau weithiwr presennol yn ymddeol diwedd mis Tachwedd.

Gofynnwyd a fyddai'n bosib ymestyn yr oriau agor yn enwedig yn ystod misoedd yr haf a hefyd am gael goleuo'r ffenestri.

**Argymell:** I ystyried a oes gan y Cyngor Tref diddordeb mewn rhedeg y toiledau cyhoeddus eto pan fydd gwybodaeth parthed costau gosod peiriant 20c yno a gwybodaeth ynglŷn â chymryd y maes parcio drosodd neu ei redeg mewn partneriaeth a Chyngor Gwynedd i law.

2. **Adroddiad Caeau Chwarae**

Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae

**Argymell:** I dderbyn yr adroddiadau

3. **Caeau Chwarae**

Yn dilyn adroddiad RoSPA ar y caeau chwarae yn ddiweddar mae angen man waith ar ambell gae.

**Argymell:** I symud ymlaen gyda'r holl waith angenrheidiol a'r man atgyweiriadau cyn gynted â modd.

4. **Cae Manod**

Neilltuwyd arian ym mhraesept y Cyngor am y flwyddyn 2017/2018 ar gyfer adnewyddu'r offer pren ar Gae Manod. Trafodwyd gwahanol fath o unedau modiwlwr

**Argymell:** Wedi trafod yr opsiynau, teimlwyd nad oeddynt yn cynnig beth oedd angen ar gae Manod. I gael pris am offer Marian Glas sydd yn offer llawer mwy mewn maint.

5. **Goleuadau Nadolig**

Cafwyd gwybodaeth bod goleuadau Nadolig newydd wedi eu harchebu a bod sawl busnes lleol wedi rhoi caniatâd i oleuadau gael eu gosod ar eu hadeiladau.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth

6. **Coed Afalau**

Cafwyd gwybodaeth bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am roddi grant hyd at £100 i ni ar gyfer prynu mwy o goed afalau gan ein bod yn bwriadu eu plannu o fewn hanner milltir i ffin y Parc.

**Argymell:** I dderbyn y wybodaeth

7. **Cais Cynllunio**

Cais Cynllunio Rhif C17/1085/03/HY

Ymgeisydd Co-op Food

Y Co-op

Blaenau Ffestiniog

Amrywiol arwyddion gan gynnwys arwyddion ffasgia ac arwydd totem wedi eu goleuo

**Dim Gwrthwynebiad**

8. **Tir yn Bethania**

Bu i Cartrefi Cymunedol Gwynedd ofyn i'r Cyngor Tref wneud tendr ar gyfer tir ym Methania a rhoddwyd tendr o £1 i mewn ar gyfer y ti. Erbyn hyn mae'r asiant wedi dod yn ol a dweud bod CCG yn awyddus i'r Cyngor Tref brynu'r tir i'r gymuned er nad tir yn dda i fawr o ddim ond fel tir pori. Gofynnir i'r Cyngor Tref dalu'r costau ynghlwm a'r pryniant sydd yn gwneud cyfanswm o £1240 cyn TAW

**Argymell:** I drafod prynu'r tir ymhellach mewn cyfarfod i'w gynnal 23<sup>ain</sup> o Dachwedd yn y Siambr am 7.00 o'r gloch pan fydd mwy o wybodaeth i law.

9. **Adeilad y Cyngor**

Bu i'r Cynghorwyr drafod manteision o geisio prynu'r adeilad. Cyngor Dinesig Ffestiniog oedd perchen yr adeilad cyn ail drefniant llywodraeth leol yn y 70'au gyda threthdalwr yr ardal wedi talu'r pris o £1000 am yr adeilad bron i gan mlynedd yn ôl. Fe drosglwyddwyd holl asedau Cyngor Dinesig Ffestiniog i Gyngor Dosbarth Meirionnydd ac yna i Gyngor Gwynedd a bu i Gyngor Gwynedd werthu'r adeilad tua 12 mlynedd yn ôl. Erbyn hyn Antur Stiniog i'w perchnogion yr adeilad. Cafwyd gwybodaeth bod Antur Stiniog yn chwilio am bris dros £200,000 am yr adeilad yn ei gyflwr presennol.

**Argymell:** I wneud ymholiadau pellach.

